Met Office | HM Government

# YDYCH CHI'N WEATHERREADY?

Efallai na fyddwn ni’n gallu cynllunio ymlaen llaw yn union fel y gwnaethom y gaeaf diwethaf ond gall meddwl ymlaen a pharatoi ar gyfer yr hyn a ddaw yn sgil y tywydd wneud gwahaniaethgwirioneddol.

*Dyma ychydig o gamau syml y gallwch eu cymryd i baratoi'ch hun, eich cerbyd a'ch cartref neu fusnes.*



**Mynnwch eich pigiad ffliw**
Mae ffliw tymhorol yn digwydd bob blwyddyn, fel arfer yn y gaeaf. Gall y brechlyn ffliw leihau'r siawns y bydd y rhai sydd fwyaf agored i COVID-19 yn cael ffliw.



**Gwiriwch fod eich cerbyd yn barod ar gyfer y gaeaf**
Ychwanegwch olchiad sgrin sy'n effeithiol mewn tymereddau oer, gwiriwch fod eich teiars yn addas i'r ffordd fawr a phacio pecyn gaeaf ar gyfer eich car.




**Gwiriwch eich modd gwresogi**
Gall tywydd oer gyflwyno risg i'ch iechyd yn arbennig os ydych chi dros 65 oed neu os oes gennych gyflwr iechyd tymor hir. Dylai’ch cartref gael ei gynhesu i fwy na 18 ° C.



**Mae gwiriadau plymio’n arbed arian**
Gall rhewi a thoddi achosi byrstiau mewn pibellau. Gwiriwch fod eich pibellau wedi'u hinswleiddio yn arbennig y tu allan a sicrhewch eich bod yn gwybod ble mae'ch stopfalf.



**Diogelwch eich cartref a'ch gardd rhag tywydd garw**
Meddyliwch am yr hyn y gallai gwyntoedd cryfion neu lifogydd o amgylch eich cartref effeithio arno. Trefnu gwiriadau cynnal a chadw ac ystyried symud eitemau.



**Sicrhewch fod cyflenwadau sylfaenol wrth law**
Rhowch bethau defnyddiol fel dŵr, fflachlamp, a batris ynghyd â rhifau brys mewn bag rhag ofn y bydd storm yn torri llinellau pŵer, dŵr neu ffôn.



**Gwnewch gynlluniau amgen**
Efallai y bydd angen cynlluniau cymudo amgen arnoch ar gyfer tywydd garw, a chynlluniau gofal plant amgen rhag ofn y bydd yr ysgol neu'r feithrinfa'n cau.



**Cofiwch am gymdogion bregus**
Cadwch lygad ar eraill yn eich cymuned a helpwch bobl i gael gafael ar y cyflenwadau, help neu wybodaeth sydd eu hangen arnynt i'w cadw'n ddiogel ac yn iach yn y gaeaf.

***www.metoffice.gov.uk/WeatherReady***

Ydy'ch ffrindiau, cymdogion a'ch cymuned yn WeatherReady ar gyfer y gaeaf? Helpwch nhw i baratoi trwy rannu'r rhestr wirio hon neu ymunwch â'r sgwrs ar-lein #WeatherReady

Produced by the Met Office. Met Office and the Met Office logo are registered trademarks. © Crown Copyright 2020, Met Office 01474